

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 9 Medi 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes	
Iestyn Harris (IH)	Pat Jones	
Sarah Riley	Mair Bebb Jones	
George Smith		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Medi, estynnwyd croeso hefyd i Richard Shon Williams a'i bartner a gyflwynodd gwybodaeth drylwyr ynglŷn â'u safbwynt hwy a'r gyflwyno Llwybr yr Arfordir drwy'r Faenol. Cafodd yr aelodau gyfle i gwestiynu'r ddau a chafwyd ychydig o drafodaeth ar y mater.</p> <p>Yn ystod y rhan yma fe gyflwynodd y Clerc er gwybodaeth gohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth Cyngor Gwynedd sef Bwriad Cyngor Gwynedd i ehangu Llwybr yr Arfordir drwy wneud cytundeb a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chreu Llwybr yn cychwyn wrth ymyl "Glan y Môr Lodge", Y Felinheli - wrth adwy yn wal y Faenol - ac yn ymuno a'r Llwybr cyhoeddus Llwybr Cyhoeddus Rhif 21, Pentir ger adwy yn wal y Faenol, a hyd y Llwybr fydd thua 3 kilometr. Dangoswyd hefyd gynllun lleoliad arfaethedig o'r llwybr. Nid oedd yr ohebiaeth yn gofyn am farn na sylwadau'r Cyngor.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau am fynychu'r cyfarfod er mwyn rhannu eu safbwynt a'r cyngor. Nid oedd RS Williams a'i Bartner yn bresennol ar gyfer gweddill o'r cyfarfod.</p> <p>Ymddiheuriadau: Gwyneth Williams, Siân Gwenllian, Bethan Jones, Nerys John.</p>	
2.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Cynghorydd Ken Brown a Louise Hughes yn datgan diddordeb yn eitem 7.1.	
3.0	COFNODION	
	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf. Cynigwyd fel rhai cywir gan Miss Ashley a Louise Hughes.	
4.0	MATERION YN CODI	
4.1	Holiadur Tai – Roedd Adroddiad ar yr Atrolwg Tai wedi eu darparu gan y Cynghorydd Nerys John. Dywedodd y Cynghorydd Lena Ashley bod fwy o fanlylion i'w cael oddi wrth y canlyniadau.	CLERC
4.2	Bolard Maes Parcio - Nid oedd y Cadeirydd wedi	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	derbyn gwybodaeth ynglŷn â math o folard gan y Cynghorydd Gwyneth Williams ond byddai yn cysylltu â hi ynglŷn â'r mater yn fuan.	KO
5.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD	
5.1	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi archebu/prynu gril ar gyfer y fentiau am £27 er mwyn sicrhau gwyntyllu o dan lawr y neuadd ond ar yr un pryd yn rhwystro mynediad i anifeiliaid bach. Roedd tystiolaeth bod y gwyntyllu yn gweithio gan fod y tamprwydd yn sychu. Roedd y neuadd yn cael eu defnyddio diwedd y mis gan Sain ac yn ddiweddar roedd priodas lwyddiannus wedi ei chynnal yn y neuadd. Rhoddwyd carped i lawr ar gyfer y digwyddiad ac roedd y par priod wedyn wedi ei adael yno fel rhodd er defnydd y neuadd. Roeddynt hefyd wedi prynu oergell ar gyfer y digwyddiad ac wedi gadael honno fel rhodd. Dywedyd bod parcio gan ddefnyddwyr y neuadd yn gallu creu anhawster i drigolion Stryd Bangor drwy rwystro eu mynedfeydd sydd ar Lon Emyr. Awgrymwyd bod trefnwyr digwyddiadau o fewn y neuadd yn cynghori'r ymwelwyr i'r digwyddiadau bod lle parcio yn brin a gwell fyddai iddynt geisio hawl i barcio yn neuadd yr eglwys. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â marciau'r cwrt badminton ar lawr y neuadd ynghyd a'r pyst net y badminton.	
6.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD	
6.1	Cadarnhawyd gwariant mis Gorffennaf ag Awst gan Miss Ashley a Ms Mair Bebb Jones. Cadarnhaodd y Swyddog Ariannol bod anfonebau Jones & Whitehead (Adolygiad Trydanol y Neuadd) a Cyngor Gwynedd (Golau Stryd Cerrig yr Afon) wedi eu Talu. Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod am i'r canlynol gael ei gofnodi "yn datgan bod y gwariant ar y golau stryd yn groes i'w arweiniad ar gyfyngiadau cynghorau.	
6.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Datganiad Terfynol yr archwiliwr allanolar gyfrifon 2013 - 2014. Roedd yr aelodau yn derbyn y datganiad. Cynigodd y Cynghorydd Iestyn Harris bod y datganiad terfynol yn cael ei gymeradwyo gyda'r Cynghorydd Daniel Williams yn eilio. Roedd y Cyngor yn gytûn ac arwyddwyd y datganiad gan y Cadeirydd a'r Clerc.	
6.3	Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyflogau - yn dilyn cyfarfod o'r is bwyllgor cyflwynodd cynrychiolydd yr is-bwyllgor bod penderfyniad wedi ei wneud i godi cyflog y Gofalwraig o £7.50 yr awr i £8.00 yr awr. Dywedodd hefyd bod y Clercod i gael codiad yn unol â'r raddfa bresennol, bydd cadarnhad o'r raddfa yn cael ei dderbyn yn gyntaf oddi wrth	IH

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Cymdeithas y Clercod. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod angen edrych a'r ffioedd defnyddio'r neuadd. Bydd yr Is-bwyllgor y Neuadd yn cyfarfod i drafod y mater. Roedd £10,283 yng nghyfrif y Neuadd.	
6.4	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod Fainc coffa'r Diweddar Pat White wedi eu harchebu ei fod wedi ei phaentio a bellach yr unig beth sydd angen ei wneud yw gosod y plac. Roedd wedi gwneud y gwaith er budd a lles y cyngor.	
6.5	Siec Cefnogi – Cafwyd llythyr o esboniad gan Aleb Job ar ran Cefnogi pam nad oedd y siec heb gael ei chyflwyno i'r banc. Cafwyd ychydig o drafodaeth ynglyn a'r mater a phenderfynwyd y byddai y Clerc yn cysylltu a Chefnogi i esbonio'r sefyllfa.	CLERC
7.0	GOHEBIAETH	
7.1	Llythyr ynglŷn â Bws y Wern - derbyniwyd llythyr o gŵyn ynglŷn â cherbydau yn parcio yn y Wern ac o ganlyniad bod rhwystr i'r gwasanaeth bws. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd byddai'r Clerc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater	CLERC
7.2	Cyfarfod Cyffredinol Unllais - Gofynnwyd a oedd Aelod ar gael i gyflwyno Cynnig y Cyngor yn y cyfarfod. Yn Anffodus nid oedd Siân Gwenllïan A'r gael. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams yn barod i fyd ond byddai rhaid iddo gadarnhau gyda'r Clerc.	DW/CLERC
7.3	Pont Aberpwll – Cafwyd cadarnhad bod gwaith o dorri'r goeden gan y perchennog mewn llawr.	
8.0	ADRODDIAD Y CLOC	
	Dywedodd y Clerc ei bod wedi cael cyfarfod gyda Peter Wray a'r Cynghorydd Ken Brown y pwnn hwnnw a bod y pensaer angen mobile platform i archwilio'r Cloc. Gofynnodd y Clerc am ganiatâd y Cyngor i symud ymlaen i drefnu mobile platform ac i gael adroddiad ar y cloc. Cytunodd y Cyngor i hyn gael ei wneud.	CLERC
9.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
	Dim	
10.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dim i'w adrodd	
11.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
11.1	Dim i'w adrodd	
12.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
12.1	Diolchodd Y Cadeirydd i George, Sarah a Nerys am eu gwaith o gerdded ac archwilio'r llwybrau. Mae copi o'r adroddiadau wedi eu hanfon at Gyngor Gwynedd. Nid oedd dim i adrodd ar y cysgodfannau bysiau. Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig i ddyddiad ar y	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Cynllun Cerdded a Darganfod.	
13.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Nid oedd y Cynghorydd yn bresennol.	
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
	Gwaith wedi ei wneud ar dy ar Lan y Môr a'r llechi wedi eu gosod gyda mini diggar ger y wal. Barry Davies yn ymwybodol o'r mater.	
15.0	UNRHYW FATER ARALL	
	Baw ci ar y Lon Las, Yn y Wern a Ilwybr y Wern. Cynllun storfa Garddfon. Dywedodd Daniel Williams bod Bragdy'r Garddfon yn barod i ystyried codi storfa casgenni cwrw o flaen y Garddfon a'u bod yn barod i ystyried codi toiledau yno hefyd a gwneud i ffwrdd a'r rhai sydd yno ar hyn o bryd. Roedd cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r bragdy, y Cynghorydd Sir ac roedd yn gofyn caniatâd y cyngor i fod yn bresennol yn yr un cyfarfod ar ran y cyngor. Rhoddodd y Clerc gyngor i'r cynghorydd ei fod e fag un arall yn mynychu a bod y Cynghorydd Siân Gwenllïan yno fel Cynghorydd Sir yn unig a dim fel Cynghorydd Cyngor Cymuned.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 10:30 yn yr hwyr.	DW
Llofnod:		Dyddiad: